

CYFARFOD	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD	12 HYDREF 2026
TEITL	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS	I dderbyn a nodi diweddariad Cadeiryddion Bwrdd Pensiwn gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru
ARGYMHELLIAD	DERBYN A NODI'R WYBODAETH
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Dyma adroddiad rheolaidd sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd Pensiwn ar y gwaith a gyflawnir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

2. CYFARFOD YMGYSYLLTU CADEIRYDDION BWRDD PENSIWN

Mae Cadeiryddion y Byrddau Pensiwn yn cyfarfod pob 6 mis, ac fe wnaethant gyfarfod yn ffurfiol ddiwethaf ar 29 Ebrill 2026. Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn

Roedd hyn yn bennaf yn cynnwys y gofrestr risg, ac mae'r Cynlluniau Busnes diweddaraf wedi'u cynnwys yn atodiad 2 a 3.

3. DIWEDDARIAD WPP IM Co

WPP IM Co yw'r cwmni rheoli buddsoddiadau ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac fe'i sefydlwyd ym mis Awst 2025, gyda Rob Lamb wedi'i benodi'n Brif Swyddog Gweithredol ym mis Medi 2025.

Cyflwynodd Rob Lamb y Cynllun Busnes (Atodiad 4) a darparodd ddiweddariad cyffredinol.

Ers hynny, mae diweddariad wedi ei ddarparu yn crynhoi'r hyn y mae'r cwmni wedi'i gyflawni ers mis Medi 2025 mewn perthynas â Llywodraethu, Pobl a Gweithrediadau (Atodiad 5).

4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 31 RHAGFYR 2025

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn Atodiad 6.

5. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi'r wybodaeth.